

# Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes

## Strategaeth Ymchwil ac Effaith

### Pwy ydym ni:

Mae ymchwilwyr Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes yn gwneud ymchwil sy'n ennill gwobrau, yn rhagorol yn rhyngwladol ac sy'n cael effaith. Mae ein hymchwil yn cynnwys iaith a llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r cyfryngau, astudiaethau ariannol, cyfathrebu, astudiaethau technoleg, rheoleiddio, cyfiawnder, hunaniaethau ac astudiaethau cymunedol. Mewn amrywiol ddisgyblaethau, rydym yn cyfuno rhagoriaeth academaidd gydag ymgysylltiad â'r gymuned, effaith ar bolisi, a chyfraniadau creadigol a diwylliannol. Mae ymchwil y Coleg wedi'i threfnu o amgylch chwe ysgol:

- Ysgol Busnes Bangor
- Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas
- Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau, Ieithyddiaeth, a'r Cyfryngau
- Ysgol y Gyfraith
- Ysgol Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio
- Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Mae sail gadarn i'n hymchwil ar ymdeimlad o le trwy ddiwylliant, perthnasedd cymharol, moddolrwydd, llenyddiaeth, iaith, cerddoriaeth, hanes, technoleg a sefydliadau, ynghyd â diddordeb yn natur newidiol cymunedau, cenhedloedd, strwythurau llywodraethu a chyfiawnder. Adlewyrchir hyn yn ein themâu ymchwil a nodir isod, sy'n caniatáu i ymchwilwyr o bob rhan o'r Coleg a'r Brifysgol ehangach gydweithredu a chynhyrchu ymchwil arloesol, rhyngddisgyblaethol sydd gyda'r orau yn y byd. Nid oes bwriad yn y dull hwnnw i hepgor nac anwybyddu meysydd rhagoriaeth ymchwil penodol y tu hwnt i'r themâu hynny, ond mae'n cynnig set eang o faterion thematig y gall llawer o'n hymchwil ymfurfio o'u cwmpas.

### Cymru fel Cenedl yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Byd

Mae gan Fangor draddodiad balch o ymchwil i astudiaethau Celtaidd sydd gyda'r orau yn y byd, gyda ffofws penodol a chysylltiadau rhyngwladol ar hanes, diwylliant, llenyddiaeth, iaith a gwleidyddiaeth Cymru. Rydym yn gartref i rai o brif ganolfannau ymchwil Cymru, sy'n cael eu cyfarwyddo gan haneswyr blaenllaw o Gymru, arbenigwyr yng nghyfraith Cymru, diwylliant, cerddoriaeth, llenyddiaeth a barddoniaeth Cymraeg a Chymreig. Mae ein canolfannau ymchwil a'n grwpiau ymchwil yn cynnwys:

- Canolfan Ymchwil Cymru
- Canolfan R.S. Thomas
- Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru
- Y Ganolfan Astudiaethau Arthuriaidd

### Cymunedau Gwydn trwy Ddiwylliant, y Celfyddydau, a Chymdeithas Sifil

Mae ein hymchwilwyr yn archwilio ac yn ymarfer agweddau ar ddiwylliant a'r celfyddydau, ac yn casglu dealltwriaeth o elfennau o gymdeithas sifil sy'n cryfhau gwytnwch cymunedol i ymdopi â newidiadau a

heriau cyfoes. Yn seiliedig ar adnoddau archifol a chyfoes sylweddol, ynghyd â gweithgaredd artistig, rydym yn cyfrannu'n weithredol at ddiwylliant cymunedol a'r celfyddydau i roi lle i astudio cymdeithas sifil ar waith. Ochr yn ochr â gweithgareddau helaeth ym meysydd ysgrifennu creadigol, cyfansoddi cerddorol a pherfformio, mae ein canolfannau ymchwil yn y maes hwn yn cynnwys:

- Y Ganolfan dros Farddoniaeth Gyfoes
- Canolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr
- Y Ganolfan Astudiaethau Ffilm, Teledu a Sgrin

#### Llywodraethu, Economi, Sefydliadau a Chyfiawnder mewn Amseroedd o Newid

Mae cymunedau ledled y byd wedi'u cysylltu gan we gymhleth o lywodraethiant, cysylltiadau ariannol ac economaidd, ymfudo dynol, a chwestiynau ynghylch cwmpas a natur sefydliadau ac egwyddorion cyfiawnder. Mae diddordebau cystadleuol cymunedau lleol, cenedl-wladwriaethau, a systemau economaidd byd-eang a rhyngwladol yn gofyn am ymchwil ymatebol ar reoliadau a llywodraethu, sefydliadau ac astudiaethau cymunedol. Mae ein heconomegwyr, ein cyfreithwyr, ein gwyddonwyr cymdeithasol a'n haneswyr yn archwilio'r cysylltiadau cymhleth hynny a sut mae cwestiynau ynglŷn â phŵer, gwleidyddiaeth a heriau byd-eang yn effeithio arnynt. Mae sefydliadau ymchwil perthnasol yn cynnwys:

- Canolfan Cynaliadwyedd
- Sefydliad Cyllid Ewropeaidd
- Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)
- Labordy Deallusrwydd Artiffisial Emosiynol

#### Cyfathrebu, Iaith, a'r Cyfryngau

Saif Prifysgol Bangor mewn amgylchedd dwyieithog sy'n hwyluso'r cryfderau rhagorol sydd ganddi ym meysydd amlieithrwydd a dwyieithrwydd a defnydd iaith mewn amryw o gyd-destunau cyfathrebol, gan gwmpasu rhagoriaeth ymchwil mewn polisi a chynllunio iaith, caffael iaith gyntaf ac ail iaith, dadansoddi disgwrs ac astudiaethau corpws, defnydd cymunedau a chymdeithas sifil o iaith a'r goblygiadau i hunaniaeth, yn ogystal â rôl technoleg yn natblygiad iaith. Yn ogystal, mae ymchwil yn y thema hon yn codi cwestiynau ehangach am berthynas iaith a chyfathrebu fel math o bŵer, trwy gyfathrebu corfforaethol, moeseg, newyddiaduraeth, cyfathrebu perswadiol a'r cyfryngau. Yn y thema hon, rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol ac yn benodol, cydweithwyr yng Nghanolfan Bedwyr a'r Uned Technoleg Iaith. Mae ein canolfannau ymchwil a'n rhwydweithiau'n cynnwys:

- Canolfan Ymchwil i Ddwyieithrwydd
- Y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru
- Rhwydwaith Astudio'r Cyfryngau a Chyfathrebu Perswadiol
- Rhwydwaith Ymchwil Technoleg ac Iaith

## Blaenoriaethau Strategol y Colegau ar gyfer Ymchwil

Mae'r strategaeth hon yn ystyried bod ymchwil yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cyhoeddi, cipio grantiau, ymgysylltu ac allgymorth, llwybrau at effaith, arloesi a chyfnewid gwybodaeth.

Caiff Blaenoriaethau Strategol y Coleg ar gyfer Ymchwil eu llunio yng nghyd-destun ymrwymiad Prifysgol Bangor i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Egwyddorion Cynaliadwyedd. Dylai ymchwil yng Ngholeg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; pedair colofn cynaliadwyedd; y pum ffordd o weithio tuag at gynaliadwyedd; a saith nod llesiant.

### Rhagoriaeth mewn Ymchwil, Ymgysylltu ac Effaith

Mae'r Coleg yn hwyluso ymchwil, ymgysylltu, ac effaith rhagoriaeth ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol trwy ein themâu ymchwil, a gydnabyddir trwy gyhoeddiadau a gwobrau proffil uchel, o ansawdd uchel ac a adolygir gan gyfoedion, cipio grantiau o fri a mathau eraill o gydnabyddiaeth allanol. Mae ffocws penodol neilltuol ar yr isod:

- Ymgorffori ymgysylltiad yn ein mentrau academiaidd, a thrwy hynny adeiladu llwybrau i effeithio ar y broses ymchwil o'r cynnig cyntaf hyd at weithredu a lledaenu
- Mentora, adborth a chyngor ar syniadau ymchwil, ceisiadau grant, a gweithgareddau ymgysylltu, effaith ac arloesi
- Mynediad at ymchwilwyr y Coleg sydd â phrofiad o gipio grantiau ac aelodau'r panel dyfarnu ymchwil, yn enwedig UKRI
- Ymgysylltu ag ymwelwyr ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol trwy seminarau, gweithdai a chynllun ymchwilwyr ar ymweliad
- Cysylltu ein hymchwil â'r gymuned ehangach i sicrhau bod ymchwil yn cefnogi creu gwytnwch cymunedol
- Hwyluso ac ymgorffori cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu â phartneriaid allanol yn y sector preifat, cyhoeddus neu'r 3ydd sector, gan atgyfnerthu cysylltiadau â chymdeithas a diwydiant
- Hwyluso ac annog cydweithio strategol ar gynigion cyllido gyda rhanddeiliaid - ymgysylltu â rhaglenni KESS a KTP a mwy
- Codi ymwybyddiaeth yn y Coleg o anghenion cymdeithas a phryderon economaidd
- Gwella'r ffocws ar strategaeth ddiwydiannol foesebol, arloesedd, masnacheiddio a chysylltiadau dinesig
- Targedu meysydd o angen cymdeithasol a chyfleoedd ariannol
- Ymgysylltu â'r llywodraeth, llywio polisïau, datblygu projectau ymchwil gyda'r bwriad o lywio agendâu llywodraeth
- Cefnogi Cynllun Strategol 'Bangor 2050' Prifysgol Bangor sy'n hyrwyddo lledaeniad a defnydd y Gymraeg, trwy ymchwil ac ymarfer.

## Cefnogaeth i Ymchwilwyr

Mae'r Coleg yn llwyr ymrwymedig i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr ac mae'n darparu cefnogaeth i ymchwilwyr ymhob cam o'u gyrfaoedd. Rydym yn cefnogi ymchwilwyr fel a ganlyn:

- Annog cyfranogiad y rheolwyr ymchwil ac ymchwilwyr mewn rhaglenni hyfforddi perthnasol
- Cynnwys cynrychiolwyr yr ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa yn y Coleg yng Ngrŵp Ymchwil ac Effaith y Coleg a'i weithgareddau
- Cydnabod amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil, ymgysylltu ac effaith sydd ar waith yn y Coleg gan gynnwys ymarfer creadigol fel ymchwil ac ymgysylltu diwylliannol
- Mentora i gefnogi cipio grantiau a datblygu gyrfaoedd ymchwil
- Annog a chydabod cyfraniadau ymchwilwyr at baneli dyfarnu ymchwil, cymdeithasau dysgedig, a chyfnodolion a gwaith golygyddol arall
- Rhoi amser ar gyfer ymchwil trwy gefnogi'r egwyddor o gydraddoldeb amser gwarchoddedig mewn ysgolion a thrwy gynnig absenoldeb astudio ledled y Coleg lle mae cyfiawnhad dros hynny
- Cynrychioli buddiannau a llais cymuned ymchwil y Coleg yn y Brifysgol
- Cefnogi cydnabyddiaeth ymchwilwyr trwy fesurau allanol o ragoriaeth ymchwil fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

## Heriau mawr, Ymatebion Cymdeithasol a Rhyngddisgyblaeth.

Mae ymchwil rhyngddisgyblaethol yn cynhyrchu ffurfiau newydd o wybodaeth, arloesedd, dealltwriaeth ac allbynnau creadigol sydd eu hangen i roi sylw i'r heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas yn fyd-eang. Mae'r Coleg yn llwyfan i annog a hwyluso ymchwil, gweithgareddau ymgysylltu ac effaith rhyngddisgyblaethol, gan gysylltu ysgolion ar draws y Coleg, ac ar draws tri Choleg y Brifysgol a'u hysgolion cysylltiedig trwy'r isod:

- Trefnu digwyddiadau ledled y Coleg ac i'r colegau i gyd
- Cynnwys y Coleg mewn mentrau strategol i'r brifysgol gyfan
- Sefydlu mecanweithiau i fonitro blaenoriaethau'r llywodraeth, a pharu ymchwilwyr a phrojectau â chynlluniau cyllid grant perthnasol cyn gynted ag y byddant ar gael
- Cefnogi cydweithredu rhyngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol a cheisiadau grant
- Codi ymwybyddiaeth o gyflawniadau, blaenoriaethau a chryfderau ymchwil, ymgysylltu ac effaith y coleg ledled y brifysgol, y gymuned ehangach, ac yn rhyngwladol

## Monitro Ein Strategaeth - ein nod yw:

- Galluogi ac annog pob ymchwilydd i wneud cais am gyllid ymchwil o ansawdd uchel priodol (ar lefel gyrfa a'r ddisgyblaeth benodol) yn rheolaidd
- Cynyddu nifer ac ystod y ceisiadau grant llwyddiannus yn barhaus
- Ymgorffori gweithgareddau ymgysylltu ym mhob project ymchwil o'r cychwyn cyntaf
- Cynyddu nifer y cyhoeddiadau o ansawdd uchel trwy fframwaith cyhoeddi cydlynol a'r ffocws ar ansawdd yn hytrach na niferoedd
- Annog digwyddiadau rhwydweithio rhyngddisgyblaethol a chymryd rhan mewn nifer cynyddol o geisiadau grant rhyngddisgyblaethol
- Annog creu timau yn y sefydliad a thu hwnt, gyda'r bwriad o gipio grantiau mawr.